Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Public Health Wales statement on Novel Coronavirus (COVID-19) outbreak

**This statement will be updated daily at 2pm**

*Updated: 2:00pm Friday 3 April*

Dr Robin Howe, Incident Director for the Novel Coronavirus (COVID-19) outbreak response at Public Health Wales, said:

"345 new cases have tested positive for Novel Coronavirus (COVID-19) in Wales, bringing the total number of confirmed cases to 2,466, although the true number of cases is likely to be higher.

"24 further deaths have been reported to us of people who had tested positive for Novel Coronavirus (COVID-19), taking the number of deaths in Wales to 141.

"We offer our condolences to families and friends affected , and we ask those reporting on the situation to respect patient confidentiality.

"Public Health Wales has conducted more than 10,000 tests for Novel Coronavirus (COVID-19) since the start of this outbreak, including testing more than 1,500 healthcare workers.

"On Thursday 2 April, updated guidance on personal protective equipment (PPE) for health and social care workers which applies across the UK, was published.

"The revised guidance provides clarity on the type of PPE to be used in specific care settings such as in hospitals, primary care and the community. It also clarifies how PPE should be used by various health and social care professional groups in order to provide the necessary protection to frontline staff.

"We are supporting Welsh Government and our NHS partners in the interpretation of the revised guidance.

"Novel Coronavirus (COVID-19) is now circulating in every part of Wales. The single most important action we can all take in fighting Coronavirus is to stay at home in order to protect the NHS, and save lives.

"We know that staying at home can be hard, and we want to thank each and every person across Wales for doing their bit to help slow the spread of the virus."

"Members of the public must adhere to social distancing rules about staying at home, and away from others, introduced by the UK and Welsh Government. These rules are available on the Public Health Wales website.

"People no longer need to contact NHS 111 if they think they may have contracted Novel Coronavirus (COVID-19). Information about the symptoms to look out for is available on the Public Health Wales website, or members of the public can use the NHS Wales symptom checker.

"Anyone with a suspected coronavirus illness should not go to a GP surgery, pharmacy or hospital. They should only contact NHS 111 if they feel they cannot cope with their symptoms at home, their condition gets worse, or their symptoms do not get better after seven days.

“Only call 999 if you are experiencing a life-threatening emergency, do not call 999 just because you are on hold to 111.  We appreciate that 111 lines are busy, but you will get through after a wait.

“The public play a very important role in slowing the spread of infection. By strictly following the latest measures, you will protect yourself, protect the most vulnerable and help to reduce the pressure on NHS Wales and minimise the impact of the virus.”

**Numbers of confirmed cases by local health board**

| **Health Board** | **New cases** | **Cumulative cases** |
|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 102 | 869 |
| Betsi Cadwaladr | 16 | 133 |
| Cardiff and Vale | 86 | 613 |
| Cwm Taf | 87 | 329 |
| Hywel Dda | 10 | 144 |
| Powys | 7 | 41 |
| Swansea Bay | 26 | 273 |
| Resident outside Wales | 4 | 21 |
| To be confirmed | 7 | 43 |
| **Wales Total** | **341** | **2445** |
| **Total** | **345** | **2466** |

*Due to ongoing data reconciliation and refinement, slight variation may occur day-to-day in the cases reported by health board area.

Note - We are looking at ways of providing information for the public and media in a routine or automated way, and we ask that the public and media bear with us while these systems are put in place.

**DATGANIAD CYMRAEG**

*Diweddariad: 2:00pm Dydd Gwener 3 Ebrill*

Dywedodd Dr Robin Howe, Cyfarwyddwr Digwyddiad ar gyfer yr ymateb i'r achos o'r Coronafeirws Newydd (COVID-19) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru:

“Mae 345 o achosion newydd wedi profi’n bositif am Coronafeirws Newydd (COVID-19) yng Nghymru, gan ddod â chyfanswm yr achosion a gadarnhawyd i 2,466 – er bod gwir nifer yr achosion yn debygol o fod yn uwch.

“Mae 24 person arall a gafodd brawf positif am Coronafeirws Newydd (COVID-19) wedi marw, sy’n dod â nifer y marwolaethau yng Nghymru i 141.

“Estynnwn ein cydymdeimlad i’r teuluoedd a'r ffrindiau sydd wedi'u heffeithio, a gofynnwn i'r rhai sy'n adrodd ar y sefyllfa barchu cyfrinachedd cleifion.

“Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal mwy na 10,000 o brofion ar gyfer Coronafeirws Newydd (COVID-19) ers dechrau’r argyfwng, gan gynnwys profi mwy na 1,500 o weithwyr gofal iechyd.

“Ddydd Iau 2 Ebrill, cyhoeddwyd canllawiau wedi’u diweddaru ar gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy’n berthnasol i’r DU gyfan.

“Mae'r canllawiau diwygiedig yn rhoi eglurder ar y math o gyfarpar diogelu personol y dylid ei ddefnyddio mewn lleoliadau gofal penodol megis mewn ysbytai, gofal sylfaenol ac yn y gymuned.  Mae hefyd yn egluro sut y dylai cyfarpar diogelu personol gael ei ddefnyddio gan amrywiol grwpiau iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn darparu'r amddiffyniad sydd ei angen i staff rheng flaen.

“Rydym yn cefnogi Llywodraeth Cymru a'n partneriaid yn y GIG wrth ddehongli'r canllawiau diwygiedig.

.

“Mae Coronafeirws Newydd (COVID-19) bellach yn cylchredeg ym mhob rhan o Gymru.  Y camau pwysicaf y gallwn ni i gyd eu cymryd wrth ymladd Coronafeirws yw aros gartref er mwyn amddiffyn y GIG ac achub bywydau.

“Rydyn ni'n gwybod y gall aros gartref fod yn anodd, ac rydyn ni am ddiolch i bawb ledled Cymru am chwarae eu rhan wrth helpu i arafu lledaeniad y feirws.”

“Rhaid i aelodau’r cyhoedd gadw at reolau cadw pellter cymdeithasol ynghylch aros gartref, ac i ffwrdd oddi wrth eraill, a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.  Mae'r rheolau hyn ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

“Nid oes angen i bobl gysylltu ag NHS 111 mwyach os ydynt yn credu bod ganddynt Coronafeirws Newydd (COVID-19).  Mae gwybodaeth am y symptomau i gadw llygad amdanynt ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru, neu gall aelodau'r cyhoedd ddefnyddio gwiriwr symptomau GIG Cymru.

“Ni ddylai unrhyw un yr amheuir bod ganddo/ganddi salwch coronafeirws fynd i bractis meddyg teulu, fferyllfa nac ysbyty.  Dim ond os yw'n teimlo na all ymdopi â'i symptomau gartref, fod ei gyflwr yn gwaethygu, neu os nad yw ei symptomau’n gwella ar ôl saith niwrnod y dylai gysylltu â NHS 111.

“Peidiwch â ffonio 999 oni bai eich bod yn profi argyfwng sy’n peryglu bywyd. Peidiwch â ffonio 999 dim ond oherwydd eich bod yn aros i 111 ateb eich galwad ffôn.  Rydym yn deall bod llinellau 111 yn brysur, ond bydd rhywun yn ateb eich galwad ar ôl i chi aros.

“Mae'r cyhoedd yn chwarae rhan bwysig iawn wrth arafu lledaeniad yr haint. Wrth ddilyn y mesurau diweddaraf yn llym, byddwch yn amddiffyn eich hun a’r rhai mwyaf agored i niwed, ac yn helpu i leihau’r pwysau ar GIG Cymru ac yn lleihau effaith y feirws.”

**Nifer yr achosion wedi'u cadarnhau yn ôl bwrdd iechyd lleol**

| **Bwrdd Iechyd** | **Achosion newydd** | **Achosion cronnus** |
|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 102 | 869 |
| Betsi Cadwaladr | 16 | 133 |
| Caerdydd a'r Fro | 86 | 613 |
| Cwm Taf | 87 | 329 |
| Hywel Dda | 10 | 144 |
| Powys | 7 | 41 |
| Bae Abertawe | 26 | 273 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn byw y tu allan i Gymru | 4 | 21 |
| I’w cadarnhau | 7 | 43 |
| **Cyfanswm Cymru** | **341** | **2445** |
| **Cyfanswm** | **345** | **2466** |

*Oherwydd bod y data’n cael eu cysoni a’u mireinio’n barhaus, gall fod amrywiad bach o ddydd i ddydd yn nifer yr achosion a gofnodir fesul ardal y bwrdd iechyd.”

Noder - Rydyn ni'n ystyried gwahanol ffyrdd o ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd ac i'r cyfryngau mewn trefn arferol neu awtomataidd, a gofynnwn i'r cyhoedd a'r cyfryngau fod yn amyneddgar wrth i'r systemau hyn gael eu rhoi ar waith.